

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Rhagfyr 2017 yn Siambur y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

81. DECHRAU'R CYFARFOD

Cychwynodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

82. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes a P. Prendergast.

83. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 15fed Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 68-80

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 32-34

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Rhagfyr 2017 - Rhifau Cofnod 35-39

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 6ed Rhagfyr 2017 - Rhifau Cofnod 87-101
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

84. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau a fynychodd dros y mis diwethaf ac yn benodol y bore coffi Diwrnod Rhuban Gwyn yng Nghanolfan Merched Gogledd Cymru, cadeirydd gwasanaeth carolau Cyngor Sir Ddinbych a sgrinio ffilmiau Nadolig y Cyngor Tref yn Neuadd y Dref.

85. CYFLWYNIAD I FEIRI BLAENOROL – COFNOD O'R SWYDD

Ar ran y Cyngor Tref, cyflwynodd y Maer gofnodion o'u swyddi i Mr David Simmons (Maer 2014-15), y Cynghorydd Barry Mellor (Maer 2015-16) a Miss Sarah Louise Roberts (Maer 2016-17). Roedd ffeiliau wedi eu paratoi gan y Swyddog Dinesig a Chymorth Gweinyddol i gofio eu blynyddoedd yn y swydd.

Diolchodd Mr Simmons, y Cynghorydd Mellor a Miss Roberts i'r Cyngor Tref am eu ffeiliau a gwahoddodd y Maer Mr Simmons a Miss Roberts a'u gwesteion i ymuno ag ef ar gyfer lluniaeth ysgafn ar ôl y cyfarfod.

86. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan y Maer a'r Cynghorydd S. Harris.

Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (29ain Tachwedd – 12fed Rhagfyr 2017)

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Newsquest Media Group Ltd (NWN Media Ltd gynt)	Hysbyseb ar gyfer Sul y Coffa	397	10/11/17	120.00
BJS Solutions	Meddalwedd gwrth-firws 5 defnyddiwr	398	26/11/17	179.94
Cyngor Sir Ddinbych	Llogi neuadd y dref + te a choffi ar Sul y Coffa	399	30/11/17	130.00
Sant Ioan Cymru	Cyfraniad ar gyfer gwasanaethau ar Sul y Coffa	400	12/11/17	50.00
Cyfanswm Atodlen B				£479.94

a chymeradwyo'r ychwanegiad canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:

- Newsquest Media Group Ltd

87. CYLLIDEB FLYNYDDOL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r argymhellion ynddo, heb eu newid ers y cyfarfod diwethaf ar 6ed Rhagfyr 2017.

Soniodd Clerc y Dref, fodd bynnag, am un newid nodedig ers ysgrifennu'r adroddiad, sef bod ffigwr sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2018/19 wedi cynyddu o 9,298 i 9,367 eiddo, gan ostwng y cynnydd gofynnol i'r braesept o 4.5% i oddeutu 3.7%.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor

(a) yn cymeradwo argymhellion y Pwyllgor ac yn codi praesept o £520,022 (Pum Cant ac Ugain Mil a Dwy Bunt ar Hugain) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cychwyn 1af Ebrill 2018, gyda Chyngor Sir Ddinbych i'w hysbysu yn unol â hynny, a

(b) Cymeradwyo Cynllun Cronfeydd Wrth Gefn 5 Mlynedd y Pwyllgor.

88. EITEM ER GWYBODAETH: PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL / PWYLLGOR CYNLLUNIO

Atgoffodd y Maer yr aelodau bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio a drefnwyd ar gyfer 3ydd Ionar 2018, wedi eu canslo.

89. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

90. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

91. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i gymeradwyo'r cais gan fudiad 'Cyfeillion y Cob' yn Marsh Road, y Rhyl.

Roedd y cais yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried talu costau dau docyn dychwelyd ar y trê'n i Lundain ar gyfer dau o'i aelodau, ynghyd â Chynghorwyr ward Mrs P. M. Jones a P. Prendergast (a fyddai'n talu am eu tocynnau trê'n eu hunain) i ymweld â phrosiect 'uwchgylchu' tebyg i'r un a oedd yn cael ei ystyried gan 'Gyfeillion y Cob' gan ddod â manteision uniongyrchol i drigolion yr arian, a oedd yn gymesur â'r gwariant a ragwelwyd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais ac awdurdodi Clerc y Dref i dalu am ddau docyn trê'n hyd at gyfanswm o £200.

92. RHYDDFREINWYR ANRHYDEDDUS

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn cais gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am unigolyn i'w ystyried ar gyfer y wobr (dosbarthwyd adroddiad gyda'r rhaglen).

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r person a enwebwyd a bod Clerc y Dref yn cysylltu â nhw i gadarnhau eu bod yn derbyn cyn gwneud unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus.

93. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

94. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: